OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 1186 (Cy. 296)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 37 (Y Pîl), Pen-y-bont ar Ogwr i Gyffordd 38 (Margam), Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Hydref 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Tachwedd 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 37 (Y Pîl), Pen-y-bont ar Ogwr i Gyffordd 38 (Margam), Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Tachwedd 2021.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Tachwedd 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar naill ai cerbytffordd tua'r gorllewin neu gerbytffordd tua'r dwyrain y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.**—(1) Tra bo cerbydau'n cael eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin gan erthygl 3, ond yn unol ag erthygl 10, nad ydynt yn cael eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

(2) Tra bo cerbydau'n cael eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain gan erthygl 3, ond yn unol ag erthygl 10, nad ydynt yn cael eu gwahardd

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

rhag symud ar y gerbytffordd tua’r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua’r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua’r dwyrain.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r draffordd a bennir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o’r draffordd a bennir yn Atodlen 4 i’r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy’n 2.9 metr o led neu’n lletach fynd ar y darnau o’r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**9.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**10.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a’r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal dros dro**

**11.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o’r draffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 i’r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**12.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Hydref 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwrthlif a dim goddiweddyd**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi 1 cilometr i'r gorllewin o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 37 (y Pîl) am bellter o 2.3 cilometr.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi 3.3 cilometr i'r dwyrain o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam) am bellter o tua 2.3 cilometr.

**ATODLEN 2**
**Gwahardd cerbydau dros dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi 1 cilometr i'r gorllewin o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 37 (y Pîl) am bellter o 2.3 cilometr.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi 3.3 cilometr i'r dwyrain o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam) am bellter o tua 2.3 cilometr.

Y darnau o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 37 (y Pîl).

Pob cilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain a cherbytffordd tua'r gorllewin y draffordd rhwng Cyffordd 37 (y Pîl) a Chyffordd 38 (Margam).

**ATODLEN 3**
**Terfyn cyflymder 40 mya dros dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 1 cilometr i'r dwyrain o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 38 (Margam) am bellter o tua 4.7 cilometr.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 0.67 cilometr i'r dwyrain o'r ffordd

ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam) am bellter o tua 4.65 cilometr.

**ATODLEN 4**
**Terfyn cyflymder 50 mya dros dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.7 cilometr i'r dwyrain o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 38 (Margam) am bellter o tua 700 metr.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 0.6 cilometr i'r dwyrain o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam) am bellter o tua 700 metr.